

## **Archwiliad Cyhoeddus Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015-2030)**

### **Datganiad Tir Cyffredin rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyfoeth Naturiol Cymru: SOCG012**

#### **1.0 Rhagarweiniad**

- 1.1 Datganiad ar y cyd yw hwn a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir y Fflint ('y Cyngor'), a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gynorthwyo a llywio Archwiliad Cyhoeddus Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (CDLI, 'y Cynllun'). Mae'r datganiad yn nodi pa faterion y cytunwyd arnynt rhwng y partïon a pha rai na chytunwyd arnynt, mae'n ychwanegol at y Datganiad Tir Cyffredin SOCG006 a gyflwynwyd i'w archwilio ym mis Ionawr 2021.
- 1.2 Mae CNC yn ymgynghorydd statudol at ddibenion y Cynllun o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, a 'Corff Cadwraeth Natur Priodol' (CCNP) at ddibenion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, y mae'n rhaid ymgynghori ag o at ddibenion unrhyw asesiad priodol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Mae CNC wedi bod yn fudd-ddeiliad allweddol yn cynghori'r Cyngor drwy gydol y gwahanol gamau o baratoi'r Cynllun. Yn flaenorol, mae CNC wedi mynd i Ddatganiad Tir Cyffredin gyda'r Cyngor mewn perthynas â'r cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd (cyfeirnod SOCG 006). Mae'r Datganiad Tir Cyffredin hwn yn atodol ac mae'r ffocws wedi'i gyfyngu i'r materion a nodwyd ym mharagraffau 2-2.6 isod.
- 1.3 Mae'r ddwy ochr yn cydnabod pwysigrwydd y Cyngor a budd-ddeiliaid allweddol yn cydweithio cymaint â phosibl ar gyfer yr Archwiliad yn Gyhoeddus.

#### **2.0 Cefndir**

- 2.1 O ran Datganiad Sefyllfa Cynllunio CNC 'Afonydd a Ffosffadau Dynodedig ACA'<sup>1</sup>, a'r 'Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afon sy'n sensitif i ffosfforws mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig'<sup>2</sup>, ac fel CCNP, dywedodd CNC wrth y Cyngor ar 23 Mehefin 2021 y cynhaliwyd adolygiad mewnol o'r asesiadau priodol mwyaf diweddar ar gyfer y trwyddedau amgylcheddol sy'n bodoli ar gyfer y gwaith trin dŵr gwastraff sy'n berthnasol i'r Cynllun. Dywedodd CNC na fyddai'n briodol i'r Cyngor ddibynnu arnynt wrth ddiweddarau'r CRT ar gyfer y Cynllun. Cynhaliwyd yr asesiadau ar gyfer y trwyddedau amgylcheddol sy'n bodoli gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn 2009, fel rhan o'r gwaith Adolygu Cydsyniadau. O'r herwydd, nid

---

<sup>1</sup> <https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/news/tighter-phosphate-targets-change-our-view-of-the-state-of-welsh-rivers/?lang=en>

<sup>2</sup> <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/advice-to-planning-authorities-for-planning-applications-affecting-phosphorus-sensitive-river-special-areas-of-conservation/?lang=en>

yw'r casgliadau'n ystyried y targedau ffosfforws newydd, tynnach ar gyfer y cyrff dŵr yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, fel y manylir yn yr adroddiad Aseiad Cydymffurfiaeth a gyhoeddodd CNC ym mis Ionawr 2021. Mae'r aseuadau hefyd yn rhagddyddio'r gyfraith achos ddiweddar (yr achosion "Iseldiraidd" a'r "Compton"), y mae angen eu hystyried yng nghyd-destun gwaith CRT y Cyngor. Mae'r Cyngor fel Awdurdod Cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn cytuno â'r cyngor hwn.

- 2.2 Rhaid i'r twf ychwanegol y darperir ar ei gyfer yn y Cynllun beidio ag arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA ac mae angen ystyried mesurau lliniaru y gellir dibynnu arnynt i ddiystyru effeithiau andwyol.
- 2.3 Mae yna lawer o achosion dros llygredd ffosfforws afonol yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid e.e. gollyngiadau dŵr gwastraff presennol, amaethyddiaeth a llygredd gwasgaredig. Mae cyflwr ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn fater y bydd angen ei ystyried yn ehangach ac mae y tu allan i gwmpas y Cynllun.
- 2.4 Bydd angen cymryd camau gweithredu strategol ar draws ystod eang o fudd-ddeiliaid cyfrifol a chyfundrefnau cyfreithiol a rheoliadol er mwyn cyflawni gwelliannau i lefelau ffosfforws afonol i fodloni Rheoliadau Cynefinoedd.
- 2.5 Mae'r Cyngor yn llwyr gydnabod ei rôl wrth reoli ffosfforws sy'n deillio o ddatblygiad y Cynllun. At ddibenion y Cynllun, rhaid i'r Cyngor, gyda chyngor gan CNC a budd-ddeiliaid eraill, sicrhau gwelliannau yn ansawdd dŵr afonol ar y raddfa, amseriad a'r sicrwydd sydd eu hangen i gyflawni'r dyraniadau arfaethedig, tra'n osgoi effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Byddai mesurau lliniaru ar gyfer y Cynllun wedyn yn dod o dan gysgod strategaeth ehangach i gyrraedd y targedau ffosfforws, adfer yr ACA i gyflwr ffafriol a chreu capasiti amgylcheddol ar gyfer datblygu'r Cynllun yn y dyfodol.
- 2.6 Mae'r ddogfen hon gyda CNC yn nodi'r Tir Cyffredin ar y dull strategol o leihau lefelau ffosfforws yn nalgylch ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, gyda'r bwriad o gefnogi archwiliad y Cynllun.

**Tabl 1: Tabl o Faterion: Materion y Cytundeb**

Cyf.	Mater
1	Bydd y Cyngor yn gweithio gyda CNC a budd-ddeiliaid eraill i ddatblygu dull strategol o leihau lefelau ffosfforws yn nalgylch ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.
2	Dylid darparu dull strategol o leihau ffosfforws yn Afon Dyfrdwy drwy <b>Fwrdd Rheoli Maethynnau</b> (BRhM) ar gyfer dalgylch ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer ACA Afon Gwy yn darparu templed.
3	Nid yw aelodaeth a chylch gorchwyl y BRhM wedi ei gytuno eto, ond cytunir bod CNC a'r Cyngor yn bwriadu cymryd rhan fel aelodau o'r Bwrdd. Mae wedi ei gytuno y bydd CNC a'r Cyngor yn ceisio gweithio gyda budd-ddeiliaid eraill i sefydlu'r BRhM yn ffurfiol cyn mabwysiadu'r Cynllun.
4	<p>Cytunir, yn ychwanegol at ffosfforws sy'n deillio o ddatblygiad preswyl a ddyrannwyd yn y Cynllun, fod yna ffactorau eraill sy'n cyfrannu'n sylweddol at lefelau ffosfforws afonol.</p> <p>Mae'r angen am y BRhM yn deillio o ddyletswyddau ehangach budd-ddeiliaid i fynd i'r afael â'r ffactorau cyfrannol hyn. Cytunir y dylai bod gan y BRhM nod ehangach i ddarparu atebion hirdymor i fynd i'r afael â mater gormod o ffosfforws mewn afonydd mewn modd sy'n bodloni egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.</p>
5	<p>Cytunir bod Erthygl 6(2) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn gosod dyletswydd statudol ar y DU i gymryd camau priodol i osgoi dirywiad cynefinoedd naturiol a chynefinoedd rhywogaethau o fewn ACAu.</p> <p>Gellid adlewyrchu'r dyletswyddau ehangach ar draws cyrff statudol yn unrhyw nodau / amcanion y BRhM i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r afon, tra'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau'r sector cyhoeddus.</p>
6	<p>Paratowyd fersiwn gyntaf o <b>Strategaeth Lleihau Ffosfforws Dalgylch Dyfrdwy</b> (y Strategaeth) gan y Cyngor. Mae'r Strategaeth yn cynnwys dau fath o fesurau lliniaru. Bwriad mesurau Categori 1 yw cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac osgoi effeithiau andwyol o'r datblygiad preswyl y darperir ar ei gyfer yn y Cynllun. Y Cyngor sy'n gyfrifol am sicrhau'r rhain. Bwriad mesurau Categori 2 yw sicrhau gostyngiadau ehangach ar draws y dalgylch, a dylai eu cyflwyno fod yn rhan o'r atebion hirdymor i'w hystyried gan y BRhM (gweler materion 4 a 5).</p> <p>Bydd y ddogfen yn ddogfen fyw a bydd fersiwn gyntaf yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad Newidiadau i Faterion sy'n Codi (NMC). Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i ddatblygu'r Strategaeth cyn Mabwysiadu'r Cynllun. Y bwriad yw y bydd y ddogfen yn esblygu ymhellach dros oes y Cynllun gydag adolygiadau rheolaidd i adlewyrchu'r hyn a ddysgir ac i ystyried unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth newydd a allai fod ar gael.</p>
7	Mae CNC yn cefnogi'r dull a ddefnyddir wrth ddatblygu'r Strategaeth ac yn fodlon, mewn egwyddor, bod y dull strategol arfaethedig o ddarparu mesurau lliniaru yn dderbyniol. Mae CNC wedi darparu sylwadau ar ddrafft gweithio i lywio'r broses o gyflwyno fersiwn gyntaf y Strategaeth a fydd yn rhan o ymgynghoriad NMC. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud gwaith pellach, mewn ymgynghoriad â CNC, i ddatblygu'r manylion ynghylch y mesurau sydd i'w cyflawni drwy'r Strategaeth. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen y manylion pellach hyn i ddangos bod y mesurau lliniaru yn gyraeddadwy yn ymarferol, ac yn ddigonol i danategu Polisi EN15 a bodloni gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd fel y gellir mabwysiadu'r Cynllun.

8	Mae'r Strategaeth (adran 3) yn cynnwys ystod o fesurau a allai sicrhau gostyngiadau ffosforws sy'n dechnegol ymarferol ac y gellid o bosibl eu cyflawni. Mae'r adran hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fecanweithiau ar gyfer cyflwyno ac enghreifftiau o bwerau / offer deddfwriaethol perthnasol.
9	Mae datblygiad preswyl yn y Cynllun yn amodol ar weithredu mesurau lliniaru fel y'u nodwyd ym Mholisi EN15. Os na ellir gweithredu'r mesurau lliniaru angenrheidiol, mae Polisi EN15 yn cynnwys polisi cefndirol i sicrhau na chaniateir datblygu. Mae'r Cyngor a CNC yn cytuno bod Polisi EN15 yn sicrhau y bydd effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn cael eu hosgoi, ar yr amod bod Mater 7 uchod yn cael sylw priodol.
10	Cytunir y bydd y ddwy ochr yn ceisio rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ganddynt ar hyn o bryd ynghylch ffynonellau ffosforws, unrhyw ddata dosrannu ffynonellau, mesurau posibl i gyflawni gostyngiadau ffosforws a gostyngiadau ffosforws a ragwelir, a allai fod yn gysylltiedig â mesurau o'r fath yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid wrth iddo ddod ar gael.

**Cytunwyd ar y Datganiad Tir Cyffredin hwn gan:**

**Andrew Roberts, Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth, Cyfarwyddiaeth Yr Amgylchedd, ar ran CSFf 17/11/21**

**Bryn Jones Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio Datblygiadol (y Gogledd) ar ran CNC 17/11/21**